# Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

# SoNaRR2020 Cofrestru morol asesiad SMNR

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

# Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

# Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy’r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith tystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein tystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein tystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNaRR2020 Cofrestru morol asesiad SMNR**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

# Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae’r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

**Crynodeb Gweithredol.** Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

**Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol.** Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

**Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwyliedig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

**Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

**Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol**. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

**Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Acronymau a Rhestr Termau.** Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

**Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:**

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNaRR2020 Cofrestru morol asesiad SMNR. Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Hawlfreintiau**

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan drwydded Llywodraeth Agored

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordnans.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

# Morol
# Cofrestr Adnoddau Naturiol
# Asesiad o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

## Nod 1: Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

### Nod 1: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

1.1 Mae tystiolaeth ar gyflwr ac amodau adnoddau naturiol morol yng Nghymru yn rhoi darlun cymysg. Mae rhai nodweddion mewn cyflwr da, fel y morloi llwyd a rhai adar y môr, tra bod eraill yn amrywiol iawn, gan gynnwys cynefinoedd rhynglanwol ac islanwol.
Mewn rhai achosion, megis ansawdd dŵr arfordirol a morol, mae materion sylweddol sydd â goblygiadau ar gyfer agweddau eraill ar yr ecosystem forol.

1.2 Mae gan y ffermydd gwynt alltraeth gweithredol presennol yn nyfroedd Cymru allu cynhyrchu o 726MW (Yr Ymddiriedolaeth Garbon, 2018). Mae astudiaethau amrywiol wedi tynnu sylw at y potensial ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy pellach yn nyfroedd Cymru oherwydd adnoddau toreithiog y gwynt, tonnau, llif y llanw ac amrediad y llanw (Ystad y Goron, 2011, Llywodraeth Cymru, 2011).
Asesiad hyder: Uchel

1.3 Mae cyfyngiadau data yn ei gwneud hi'n heriol i asesu cyflwr a thueddiadau cyfredol rhywogaethau pysgod a physgod cregyn morol sydd wedi'u targedu'n fasnachol ar lefel y glannau yng Nghymru (i 12 milltir môr). Mae diffygion data tebyg ar gyfer rhywogaethau pysgod cregyn gan gynnwys stociau pysgod cregyn wedi'u targedu'n fasnachol. Fodd bynnag, mae crynodeb diweddar ardaloedd ecolegol Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Moroedd Celtaidd (y mae ardal y glannau Cymru yn rhan ohono) yn nodi bod marwolaethau pysgota cyffredinol ar gyfer stoc pysgod cregyn, dyfnforol a phelagig wedi gostwng ers diwedd y 1990au, ac mae marwolaethau cymedrig bellach yn agosach at y lefel sy'n cynhyrchu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf, gyda 30 o 45 o stociau bellach yn cael eu pysgota yn unol â'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf neu'n is na hynny (Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr, 2019).
Bydd nifer o fentrau, naill ai ar waith neu wedi'u cynllunio, yn cyfrannu gwybodaeth werthfawr am gynaliadwyedd gweithgareddau pysgodfeydd morol a'u lleoliadau yn nyfroedd Cymru, gan gynnwys:

- Allbynnau asesu a rheoli'r prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru;
- Strategaeth Tystiolaeth Forol Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd a Dyframaethu Llywodraeth Cymru 2019-21 (gan gynnwys pysgodfeydd dŵr croyw);

- Diwygio parhaus i ddulliau rheoli pysgodfeydd domestig e.e. Mesurau arfaethedig o reoli cregyn moch 2020;
- Mae dulliau asesu stoc wedi cael eu datblygu ar gyfer cyllyll môr a chregyn moch, ac mae asesiadau stoc pellach yn cael eu comisiynu a'u datblygu ar gyfer stociau pysgod a physgod cregyn masnachol eraill trwy'r Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd a Dyframaethu;
- Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, Cyngor Stiwardiaeth Forol a phrosiect Llywodraeth Cymru i gynnal asesiadau o bysgodfeydd Cymru a datblygu Cynlluniau Gwella Pysgodfeydd.;
- Cofnodi daliadau gorfodol ar gyfer pob cwch pysgota trwyddedig o Gymru o dan 10 metr o hyd; a
- System monitro llongau y glannau (iVMS) ar gyfer cychod pysgota trwyddedig o dan 12 metr o hyd.

### Nod 1: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

1.4 Ar y cyfan, nid oes gennym ddealltwriaeth ddigon da o statws stoc a dynameg yr ymdrech bysgota, ei ddosbarthiad a'r dalfeydd sy'n deillio o hynny i allu penderfynu i ba raddau y mae echdynnu adnoddau pysgodfeydd o fewn dyfroedd glannau Cymru yn digwydd yn gynaliadwy. Mae consensws ar draws y diwydiant, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr angen i symud ymlaen gyda mentrau sydd eisoes ar y gweill, ac ychwanegu at waith pellach wedi'i gynllunio i ddeall statws stociau pysgod a physgod cregyn yn well ac effeithiau amgylcheddol gweithgareddau pysgodfeydd. Mae Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflenwi asesiadau ar sail tystiolaeth o effeithiau posibl offer pysgota ar nodweddion safleoedd morol Ewropeaidd yng Nghymru (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2020).

1.5 Yn gyffredinol, mae gennym ddealltwriaeth anghyflawn o'r problemau oherwydd yr heriau wrth fonitro'r amgylchedd morol, ac o ganlyniad, sefydlu cysylltiad dros dro rhwng y problemau a'r effeithiau a welwyd. Mae angen i ni ddeall dosbarthiad amserol a gofodol ac effaith gweithgareddau a phwysau cysylltiedig yn well.

## Nod 2: Ecosystemau gwydn

### Nod 2: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

2.1 Mae'r asesiad o wytnwch morol yn dangos bod ehangder a chysylltedd cynefinoedd rhynglanwol ac islanwol yn sefydlog neu'n dda ar y cyfan.
Asesiad hyder: UCHEL

2.2 Astudiaeth Carbon Glas yn tynnu sylw at y potensial i liniaru newid yn yr hinsawdd.

2.3 Mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

2.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig newydd i rywogaethau symudol gwarchodedig - tri safle i amddiffyn llamidyddion harbwr; un Ardal Gwarchodaeth Arbennig newydd a dau estyniad i Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig presennol

### Nod 2: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

2.5 Mae problemau gydag amrywiaeth a chyflwr rhai cynefinoedd, o ganlyniad i ddirywiad yn y rhywogaethau nodweddiadol a geir yn y nodwedd mewn rhai achosion, ac mewn eraill oherwydd pwysau fel maethynnau uchel, halogion cemegol, poblogaethau sefydledig a chofnodion newydd o rywogaethau estron goresgynnol, gwasgfa arfordirol a datblygiadau.
Asesiad hyder: Canolig

## Nod 3: Lleoedd Iach i Bobl

### Nod 3: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

3.1 Ar ôl cyfnod hir o welliant, yn 2019 roedd 100% o ddyfroedd ymdrochi yn cyrraedd y safon ofynnol ac aseswyd bod 83% yn rhagorol. Mae rhai problemau yn dal i fod ynghylch safon ardaloedd gwarchodedig dyfroedd pysgod cregyn, ond gwnaed gwelliannau.
Asesiad hyder: Uchel

### Nod 3: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

3.2 O'r 55 corff dŵr aberol ac arfordirol o amgylch Cymru, mae 24 yn methu â chyrraedd y safon ar gyfer nitrogen anorganig toddedig, ond anaml y mae'r methiannau hyn yn arwain at dwf gormodol mewn algâu neu effeithiau ar yr ecosystem. Ers 1990, mae tueddiadau mewn llwythi ffosfforws wedi gostwng ond nid oes unrhyw duedd sylweddol mewn gollyngiadau nitrogen o ddalgylchoedd i'r môr.
Asesiad hyder: Uchel

3.3 Yn 2019, cofnodwyd cyfartaledd o 475 o eitemau sbwriel fesul pob darn 100m o draeth (Cymdeithas Cadwraeth Forol, 2019).
Asesiad hyder: Uchel

## Nod 4: Economi Atgynhyrchiol

### Nod 4: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

4.1 Yn 2018, glaniodd £3.24m (662 tunnell) o bysgod a £8.57m (4,539 tunnell) o bysgod cregyn (ac eithrio cocos) ym mhorthladdoedd Cymru gan longau a gofrestrwyd yng Nghymru (Seafish, 2020). Glaniodd £0.76m (860 tunnell) o gocos ym mhysgodfeydd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn Aber Afon Dyfrdwy a Chilfach Tywyn (Seafish, 2020). Mae 440 o gychod pysgota cofrestredig yng Nghymru yn 2018, y mae 410 ohonynt yn llai na 10m o hyd a 30 yn fwy na 10m o hyd. Amcangyfrifir bod 1,193 o bysgotwyr yn fflyd Cymru (MMO, 2019).

Yn 2017, cynhyrchodd gweithrediadau dyframaethu £1.05m o bysgod esgyll (234 tunnell) a £1.87m o bysgod cregyn (1,545 tunnell) (Seafish, 2020). Yn 2015, cefnogodd dyframaethu oddeutu 23 o staff cyfwerth ag amser llawn ledled Cymru a darparu dros £3.5 miliwn o werth ychwanegol gros.

Bydd nifer o fentrau, naill ai ar waith neu wedi'u cynllunio, yn cyfrannu gwybodaeth werthfawr am gynaliadwyedd gweithgareddau pysgodfeydd morol a'u lleoliadau yn nyfroedd Cymru.

4.2 Yn 2018, amcangyfrifwyd bod twristiaeth arfordirol a glan môr yn werth £968 miliwn gyda chyfanswm o 4.6 miliwn o deithiau (Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, 2018)

## Nod 4: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

4.3 Ein dealltwriaeth anghyflawn o statws stoc pysgod a physgod cregyn a dynameg yr ymdrech bysgota, ei ddosbarthiad a'r dalfeydd sy'n deillio o hynny, fel y disgrifir yn 1.1.3. Fodd bynnag, bydd y mentrau a ddisgrifir yn helpu tuag at ddefnydd mwy effeithlon o'r adnoddau naturiol hyn.